ATODLEN 1

Rheoliad 15(1)

# RHAN 1

## GWYBODAETH AM Y PLENTYN

**1.** Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

**2.** Llun a disgrifiad corfforol.

**3.** Cenedl(**1**).

**4.** Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

**5.** Cred grefyddol, os oes un, (gan gynnwys manylion bedydd, gwasanaeth derbyn neu seremonïau cyfatebol).

**6.** A yw'r plentyn yn derbyn gofal neu a ddarperir llety iddo o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989.

**7.** Manylion unrhyw orchymyn llys a wnaed ynglŷn â'r plentyn o dan Ddeddf 1989 gan gynnwys enw'r llys, y gorchymyn a wnaed a'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn.

**8.** A oes gan y plentyn unrhyw hawl i eiddo neu unrhyw fuddiant ynddynt neu unrhyw hawliad am iawndal o dan Ddeddf Damweiniau Angheuol 1976 neu fel arall y gall eu cadw neu eu colli os mabwysiadir ef.

**9.** Cronoleg o ofal y plentyn ers ei enedigaeth.

**10.** Asesiad o bersonoliaeth y plentyn, ei ddatblygiad cymdeithasol a'i ddatblygiad emosiynol a datblygiad ei ymddygiad.

**11.** A oes gan y plentyn unrhyw anawsterau gyda gweithgareddau megis bwydo, ymolchi ac ymwisgo.

**12.** Hanes addysgol y plentyn gan gynnwys—

(a) enwau, cyfeiriadau a'r mathau o feithrinfeydd neu ysgolion a fynychwyd gyda dyddiadau;

(b) crynodeb o'i gynnydd a'i gyraeddiadau;

(c) a yw'n ddarostyngedig i ddatganiad o dan Ddeddf Addysg 1996;

(ch) unrhyw anghenion arbennig sydd ganddo o ran dysgu; a

(d) os yw'n derbyn gofal, manylion ei gynllun addysg personol a baratowyd gan yr awdurdod lleol.

**13.** Gwybodaeth am—

(a) perthynas y plentyn gyda —

(i) ei riant neu ei warcheidwad ac, os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, ei dad;

(ii) unrhyw frodyr neu chwiorydd neu berthnasau eraill; a

(iii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn barnu ei fod yn berthnasol;

(b) y tebygolrwydd y gall y berthynas honno barhau a gwerth hynny i'r plentyn; a

(c) gallu a pharodrwydd unrhyw un o berthnasau'r plentyn, neu unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol, i roi amgylchedd diogel i'r plentyn y gall ddatblygu ynddo, a bodloni ei anghenion fel arall.

(**1**) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.

**14.** Y trefniadau ar hyn o bryd a'r math o gyswllt rhwng rhiant y plentyn neu ei warcheidwad neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant amdano ac, os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, ei dad, ac unrhyw berthynas, cyfaill neu berson arall.

**15.** Disgrifiad o ddiddordebau'r plentyn, ei hoff bethau a'i gas bethau.

**16.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.
Rheoliad 15(2)

# RHAN 2

## MATERION I'W CYNNWYS YN ADRODDIAD IECHYD Y PLENTYN

**1.** Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra.

**2.** Adroddiad newyddenedigol ar y plentyn, gan gynnwys—

(a) manylion am ei enedigaeth, ac unrhyw gymhlethdodau;

(b) canlyniadau archwiliad corfforol a phrofion sgrinio;

(c) manylion unrhyw driniaeth a roddwyd;

(ch) manylion unrhyw broblemau mewn rheoli a bwydo;

(d) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel;

(dd) enw a chyfeiriad unrhyw feddyg a allai roi gwybodaeth bellach am unrhyw un o'r materion uchod.

**3.** Hanes iechyd y plentyn yn llawn, gan gynnwys—

(a) manylion o unrhyw salwch difrifol, anabledd, damwain, derbyn i ysbyty neu fynychu adran cleifion allanol, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a roddwyd;

(b) manylion a dyddiadau imwneiddio;

(c) asesiad corfforol ac asesiad o ddatblygiad yn ôl oedran, gan gynnwys asesiad o'r llygaid a'r clyw a datblygiad niwrolegol, llafaredd ac iaith ac unrhyw dystiolaeth o anhwylder emosiynol;

(ch) hanes ei iechyd gan yr ysgol (os yw ar gael);

(d) sut y mae iechyd corfforol a iechyd meddwl y plentyn a'i hanes meddygol wedi effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ddatblygiad ei ymddygiad;

(dd) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a all gynorthwyo'r panel mabwysiadu.

**4.** Llofnod, enw, cyfeiriad, Rhif ffôn a chymwysterau'r ymarferydd meddygol cofrestredig a baratôdd yr adroddiad, dyddiad yr adroddiad a'r archwiliadau a wnaed ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a all roi gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.
Rheoliad 16(1)

# RHAN 3

## GWYBODAETH AM DEULU'R PLENTYN AC ERAILL

### Gwybodaeth am bob rhiant i'r plentyn (gan gynnwys y rhieni naturiol a mabwysiadol) gan gynnwys tad nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn

**1.** Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

**2.** Llun, os oes un ar gael, a disgrifiad corfforol.

**3.** Cenedl(**2**).

**4.** Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

**5.** Cred grefyddol, os oes un.

**6.** Disgrifiad o'u personoliaeth a'u diddordebau.

**Gwybodaeth am frodyr a chwiorydd y plentyn**

**7.** Enw, rhyw a dyddiad a man geni.

**8.** Llun, os oes un ar gael, a disgrifiad corfforol.

**9.** Cenedl(**3**).

**10.** Cyfeiriad, os yw'n briodol.

**11.** Os unrhyw frawd neu chwaer o dan 18 oed—

(a) ym mha le a gyda phwy y mae ef neu hi yn byw;

(b) a yw'n derbyn gofal neu a ddarperir llety iddo neu iddi o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989;

(c) manylion unrhyw orchymyn llys a wnaed ynglyn ag ef neu hi o dan Ddeddf 1989 gan gynnwys enw'r llys, y gorchymyn a wnaed a'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn; ac

(ch) a ydyw ef neu hi hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu.

**Gwybodaeth am berthnasau eraill y plentyn ac unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol**

**12.** Enw, rhyw a dyddiad a man geni.

**13.** Cenedl(**4**).

**14.** Cyfeiriad, os yw'n briodol.

**Hanes y teulu a pherthnasau**

**15.** A oedd mam a thad y plentyn yn briod â'i gilydd adeg geni'r plentyn (neu a ydynt wedi priodi ar ôl hynny) ac os felly, dyddiad a man y briodas ac a yw'r rhieni wedi ysgaru neu wedi gwahanu.

**16.** Os nad oedd rhieni'r plentyn yn briod a'i gilydd ar adeg geni'r plentyn, a oes gan dad y plentyn gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly sut y cafwyd ef.

**17.** Os na wyddys pwy yw tad y plentyn na ble y mae, yr wybodaeth amdano sy'n hysbys a phwy a'i rhoes, a'r camau a gymrwyd i ddarganfod tadolaeth.

**18.** Os bu rhieni'r plentyn yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad y briodas neu yn ôl y digwydd, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth sifil.

**19.** I'r graddau y mae'n bosibl, coeden deulu a manylion teidiau a neiniau'r plentyn, ei fodrybedd a'i ewythredd a'u hoedran (neu eu hoedran pan fuont farw).

**20.** Os yw'n rhesymol ymarferol, cronoleg dau riant y plentyn ers eu genedigaeth.

**21.** Sylwadau rhieni'r plentyn am eu profiadau hwy am y rhiant a gawsant yn eu plentyndod a sut y dylanwadodd hyn arnynt.

---

(**2**) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.
(**3**) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.
(**4**) *Gweler* (**1**) uchod.

**22.** Y berthynas a fu a'r berthynas bresennol rhwng rhieni'r plentyn.

**23.** Manylion am y teulu ehangach a'u rôl a'u pwysigrwydd —

(a) i rieni'r plentyn; a

(b) i unrhyw frodyr neu chwiorydd y plentyn.

**Gwybodaeth arall am ddau riant y plentyn ac os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, y tad**

**24.** Gwybodaeth am eu cartref a'r gymdogaeth y maent yn byw ynddi.

**25.** Manylion hanes eu haddysg.

**26.** Manylion hanes eu cyflogaeth.

**27.** Gwybodaeth am gynneddf rianta mam a thad y plentyn, yn enwedig eu gallu a'u parodrwydd i rianta'r plentyn.

**28.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.
Rheoliad 16(1)

# RHAN 4

## MANYLION YNGHYLCH GWARCHEIDWAD

(a) (a) Enw, rhyw a dyddiad a man geni.

(b) Cenedl(**5**).

(c) Cyfeiriad a Rhif ffôn.

**2.** Y berthynas a fu a'r berthynas bresennol â'r plentyn.

**3.** Crefydd.

**4.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried a all gynorthwyo'r panel mabwysiadu.
Rheoliad 16(2)

# RHAN 5

## MANYLION YNGHYLCH IECHYD RHIENI A BRODYR A CHWIORYDD NATURIOL Y PLENTYN

**1.** Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra'r ddau riant naturiol.

**2.** Hanes iechyd y teulu, sy'n ymwneud â dau riant naturiol y plentyn, brodyr a chwiorydd y plentyn (os oes rhai) a'r plant arall (os oes rhai) gan bob rhiant gyda manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol a chlefyd neu anhwylder etifeddol.

**3.** Hanes iechyd dau riant naturiol y plentyn, gan gynnwys manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, anabledd, damwain neu dderbyn i ysbyty, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a gafwyd y mae'r asiantaeth o'r farn ei bod yn berthnasol.

(**5**) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.

**4.** Crynodeb o hanes obstetrig y fam, gan gynnwys unrhyw broblemau yn y cyfnod cyn geni, esgor ac ar ôl geni, gyda chanlyniadau unrhyw brofion a wnaed yn ystod neu'n syth ar ôl beichiogrwydd.

**5.** Manylion unrhyw salwch presennol, gan gynnwys y driniaeth a'r prognosis.

**6.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried a all gynorthwyo'r panel.

**7.** Llofnod, enw, cyfeiriad, Rhif ffôn a chymwysterau unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig a roddodd unrhyw wybodaeth sydd yn y Rhan hon ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a allai roi gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.

ATODLEN 2 — Rheoliad 20(1)

### GWYBODAETH A DOGFENNAU I'W DARPARU I SWYDDOG ACHOSION TEULUOL AR GYFER CYMRU NEU SWYDDOG O CAFCASS

**1.** Copi o dystysgrif geni'r plentyn.

**2.** Enw a chyfeiriad rhiant neu warcheidwad y plentyn.

**3.** Cronoleg o'r camau a'r penderfyniadau a gymerwyd gan yr asiantaeth o ran y plentyn.

**4.** Cadarnhad gan yr asiantaeth ei bod wedi cwnsela, ac wedi esbonio i'r rhiant neu'r gwarcheidwad oblygiadau cyfreithiol y cydsyniad i leoli o dan adran 19 o'r Ddeddf a hefyd, yn ôl y digwydd, o ran gwneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, a'i bod wedi rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r rhiant neu'r gwarcheidwad ynghylch y mater hwn ynghyd â chopi o'r wybodaeth a roddwyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad.

**5.** Unrhyw wybodaeth am y rhiant neu'r gwarcheidwad neu wybodaeth arall y mae'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y gall y swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog CAFCASS fod angen ei gwybod.

ATODLEN 3 — Rheoliad 23(3)(b)

# RHAN 1

## TRAMGWYDDAU A BENNIR AT DDIBENION RHEOLIAD 23(3)(b)

### Tramgwyddau yng Nghymru a Lloegr

**1.** Tramgwydd treisio oedolyn o dan adran 1 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 —

(a) tramgwydd trais o dan adran 1 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003(**6**);

(b) tramgwydd ymosodiad drwy dreiddiad o dan adran 2 o'r Ddeddf honno;

(c) tramgwydd peri i berson gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad o dan adran 4 o'r Ddeddf honno os oedd y gweithgaredd yn dod o fewn is-adran (3);

(ch) tramgwydd gweithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddwl sy'n llesteirio dewis o dan adran 30 o'r Ddeddf honno os oedd y cyffwrdd yn dod o fewn is-adran (3);

(**6**) 2003 p.42.

(d) tramgwydd peri neu ysgogi person ag anhwylder meddwl sy'n llesteirio dewis, i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol o dan adran 31 o'r Ddeddf honno, os oedd y gweithgaredd a barwyd neu a ysgogwyd yn dod o fewn is-adran (3);

(dd) tramgwydd cymell, bygwth neu ddichell i ddenu gweithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddwl o dan adran 34 o'r Ddeddf honno, os oedd y cyffwrdd yn dod o fewn is-adran (2); ac

(e) tramgwydd o beri i berson ag anhwylder meddwl gymryd rhan neu gytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol drwy gymell, bygwth neu ddichell os oedd y gweithgaredd yn dod o fewn is-adran (2).

### Tramgwyddau yn yr Alban

**2.** Tramgwydd trais.

**3.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf y Weithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995(**7**) ac eithrio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed adeg cyflawni'r tramgwydd, tramgwydd sy'n groes i adran 5 o Ddeddf Cyfraith Trosedd (Cydgrynhoi) (yr Alban) 1995 (cyfathrach rywiol â merch o dan 16 oed)(**8**), tramgwydd o anwedduster digywilydd rhwng dynion neu dramgwydd sodomiaeth.

**4.** Tramgwydd plagiwm (lladrata plentyn o dan oed blaenaeddfedrwydd).

**5.** Tramgwydd o dan adran 52 neu 52A o Ddeddf Llywodraeth Sifil (yr Alban) 1982 (lluniau anweddus o blant)(**9**).

**6.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (cam-drin ymddiriedaeth)(**10**).

### Tramgwyddau yng Ngogledd Iwerddon

**7.** Tramgwydd trais.

**8.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**11**), ac eithrio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed adeg cyflawni'r tramgwydd, tramgwydd sy'n groes i adrannau 5 neu 11 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Trosedd 1885 (cyfathrach gnawdol anghyfreithlon â merch o dan 17 oed ac anwedduster garw rhwng gwrywod)(**12**), neu dramgwydd yn groes i adran 61 o Ddeddf Tramgwyddau Corfforol 1861 (sodomiaeth).

**9.** Tramgwydd o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978 (lluniau anweddus)(**13**).

**10.** Tramgwydd o dan Erthygl 9 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth etc.) (Gogledd Iwerddon) 1980 (ysgogi merch o dan 16 i gael cyfathrach rywiol losgachol)(**14**).

**11.** Tramgwydd yn groes i Erthygl 15 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth, etc.) (Gogledd Iwerddon) 1988 (meddu ar lun anweddus o blant)(**15**).

**12.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (cam-drin ymddiriedaeth).

---

(**7**) 1995 p.46.
(**8**) 1995 p.39.
(**9**) 1982 p.45, mewnosodwyd adran 52A gan adran 161 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 p.33.
(**10**) 2000 p.44.
(**11**) 1968 p.34 (G.I.)
(**12**) 1985 p.69.
(**13**) O.S. 1978/1047 (G.I.17).
(**14**) O.S. 1980/704 (G.I.6).
(**15**) O.S. 1988/1847 (G.I.17).

Rheoliad 23(4)

# RHAN 2

## TRAMGWYDDAU STATUDOL A DDIDDYMWYD

**1.**—(1) Tramgwydd o dan unrhyw un o adrannau canlynol Deddf Tramgwyddau Rhywiol 1956—

(a) adran 1 (trais);

(b) adran 5 (cyfathrach rywiol â merch o dan 13 oed);

(c) onid yw paragraff 4 yn gymwys, adran 6 (cyfathrach rywiol â merch o dan 16 oed);

(ch) adran 19 neu 20 (herwgydio merch o dan 18 neu 16 oed);

(d) adran 25 neu 26 o'r Ddeddf honno (caniatáu i ferch o dan 13 oed, neu rhwng 13 a 16 oed, i ddefnyddio mangre i gael cyfathrach rywiol);

(dd) adran 28 o'r Ddeddf honno (peri neu annog puteinio merch o dan 16 oed neu gyfathrach rywiol â hi neu ymosodiad anweddus arni).

(2) Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Anwedduster â Phlant 1960 (ymddygiad anweddus tuag at blentyn ifanc).

(3) Tramgwydd o dan adran 54 o Ddeddf Cyfraith Troseddau 1977 (ysgogi merch o dan 16 oed i gyflawni llosgach).

(4) Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (cam-drin ymddiriedaeth).

**2.** Daw person o fewn y paragraff hwn os cafodd ei gollfarnu o unrhyw un o'r tramgwyddau canlynol yn erbyn plentyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad —

(a) tramgwydd o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1956 (caffael menyw drwy fygwth neu haeru anwir);

(b) tramgwydd o dan adran 4 o'r Ddeddf honno (rhoi cyffuriau i gael neu hwyluso cyfathrach rywiol);

(c) tramgwydd o dan adran 14 neu 15 o'r Ddeddf honno (ymosodiad anweddus);

(ch) tramgwydd o dan adran 16 o'r Ddeddf honno (ymosodiad gyda'r bwriad o gyflawni sodomiaeth);

(d) tramgwydd o dan adran 17 o'r Ddeddf honno (herwgydio menyw drwy rym neu oherwydd ei heiddo);

(dd) tramgwydd o dan adran 24 o'r Ddeddf honno (dal menyw mewn puteindy neu mewn mangre arall).

**3.** Daw person o fewn y paragraff hwn os cafodd ei gollfarnu o unrhyw un o'r tramgwyddau canlynol yn erbyn plentyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad.

(a) tramgwydd o dan adran 7 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1956 (cyfathrach rywiol â pherson diffygiol) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn;

(b) tramgwydd o dan adran 9 o'r Ddeddf honno (caffael person diffygiol) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol;

(c) tramgwydd o dan adran 10 o'r Ddeddf honno (llosgach gan ddyn) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn;

(ch) tramgwydd o dan adran 11 o'r Ddeddf honno (llosgach gan fenyw) drwy ganiatáu i blentyn gael cyfathrach rywiol â hi;

(d) onid yw paragraff 4 yn gymwys, tramgwydd o dan adran 12 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni sodomiaeth â phlentyn o dan 16 oed;

(dd) onid yw paragraff 4 yn gymwys, tramgwydd o dan adran 13 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni gweithred o anwedduster garw â phlentyn;

(e) tramgwydd o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (herwgydio person diffygiol oddi wrth riant neu warcheidwad) drwy ddwyn y plentyn o feddiant ei riant neu warcheidwad;

(f) tramgwydd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno (peri puteinio menywod) o ran plentyn;

(ff) tramgwydd o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (caffael merch o dan 21 oed) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol â thrydydd person;

(g) tramgwydd o dan adran 27 o'r Ddeddf honno (caniatáu i berson diffygiol ddefnyddio mangre ar gyfer cyfathrach rywiol) drwy gymell neu ganiatáu i blentyn droi at fangre neu fod mewn mangre at ddibenion cael cyfathrach rywiol;

(ng) tramgwydd o dan adran 29 o'r Ddeddf honno (peri neu annog puteinio person diffygiol) drwy beri neu annog puteinio plentyn;

(h) tramgwydd o dan adran 30 o'r Ddeddf honno (dyn yn byw ar enillion puteindra) mewn achos lle bo'r butain yn blentyn;

(i) tramgwydd o dan adran 31 o'r Ddeddf honno (menyw yn gweithredu rheolaeth dros butain) mewn achos lle bo'r butain yn blentyn;

(j) tramgwydd o dan adran 128 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 (cyfathrach rywiol â chleifion) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn;

(l) tramgwydd o dan adran 4 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1967 (caffael eraill i gyflawni gweithredoedd cyfunrhywiol) drwy—

(i) caffael plentyn i gyflawni gweithred o sodomiaeth gydag unrhyw berson; neu

(ii) caffael unrhyw berson i gyflawni gweithred o sodomiaeth â phlentyn;

(ll) tramgwydd o dan adran 5 o'r Ddeddf honno (byw ar enillion puteinio gwrywaidd) drwy fyw yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar enillion puteinio plentyn;

(m) tramgwydd o dan adran 9(1)(a) o Ddeddf Dwyn 1968 (bwrgleriaeth), drwy fynd i mewn i adeilad neu ran o adeilad gyda'r bwriad o dreisio plentyn.

**4.** Nid yw paragraffau 1(c) a 3(d) a (dd) yn cynnwys tramgwyddau mewn achos os oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed pan gyflawnwyd y tramgwydd.

ATODLEN 4

Rheoliad 26(2)

# RHAN 1

## GWYBODAETH AM Y DARPAR FABWYSIADYDD

### Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd

**1.** Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

**2.** Llun a disgrifiad corfforol.

**3.** A yw domisil neu gartref arferol y darpar fabwysiadydd mewn rhan o Ynysoedd Prydain ac os yw cartref arferol y darpar fabwysiadydd yno, ers pa bryd.

**4.** Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

**5.** Cred grefyddol, os oes un.

**6.** Y berthynas â'r plentyn (os oes un).

**7.** Asesiad o bersonoliaeth a diddordebau'r darpar fabwysiadydd.

**8.** Os yw'r darpar fabwysiadydd yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac os yw'n gwneud y cais ar ei ben ei hun, asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd ar gyfer mabwysiadu a'r rhesymau dros hynny.

**9.** Manylion o unrhyw achosion blaenorol mewn llys teulu y bu'r darpar fabwysiadydd yn cymryd rhan ynddynt.

**10.** Enwau a chyfeiriadau tri chanolwr a fydd yn rhoi geirda personol am y darpar fabwysiadydd, na chaiff mwy nag un ohonynt fod yn berthynas iddo.

**11.** Enw a chyfeiriad ymarferydd meddygol cofrestredig y darpar fabwysiadydd, os oes un.

**12.** O ran y darpar fabwysiadydd —

(a) os yw'n briod, dyddiad a man y briodas;

(b) os yw wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth honno; neu

(c) os oes partner gan y darpar fabwysiadydd, manylion y berthynas honno.

**13.** Manylion unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas flaenorol.

**14.** Coeden deulu gyda manylion y darpar fabwysiadydd, ei blant ac unrhyw frodyr a chwiorydd, gyda'u hoedran (neu eu hoedran pan fuont farw).

**15.** Cronoleg o'r darpar fabwysiadydd ers ei eni.

**16.** Sylwadau darpar fabwysiadydd am ei brofiad am y rhianta a gafodd yn ei blentyndod a sut y dylanwadodd hyn arno.

**17.** Manylion unrhyw brofiad sydd gan y darpar fabwysiadydd o ofalu am blant (gan gynnwys fel rhiant, llys-riant, rhiant maeth, gwarchodwr plant neu ddarpar fabwysiadydd) ac asesiad o'i allu yn y cyswllt hwnnw.

**18.** Unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos sut y mae'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un arall sy'n byw ar ei aelwyd yn debygol o ymwneud â'r plentyn a leolir ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

### Y teulu ehangach

**19.** Disgrifiad o deulu ehangach y darpar fabwysiadydd a'i rôl a'i bwysigrwydd i'r darpar fabwysiadydd a'i rôl a'i bwysigrwydd tebygol i'r plentyn a leolir ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

### Gwybodaeth am gartref y darpar fabwysiadydd etc.

**20.** Asesiad o gartref a chymdogaeth y darpar fabwysiadydd.

**21.** Manylion aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd (gan gynnwys unrhyw blant i'r darpar fabwysiadydd p'un a ydynt yn preswylio ar yr aelwyd ai peidio).

**22.** Cymuned leol y darpar fabwysiadydd, gan gynnwys i ba raddau yr integreiddiodd y teulu, grwpiau o gymheiriaid, cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol y teulu.

### Addysg a chyflogaeth

**23.** Manylion hanes addysg a chyraeddiadau'r darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar sut y cafodd hyn ddylanwad.

**24.** Manylion hanes cyflogaeth y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar sut y cafodd hyn ddylanwad.

**25.** Cyflogaeth bresennol y darpar fabwysiadydd a'i farn am gyflawni cydbwysedd rhwng cyflogaeth a gofal plant.

### Incwm

**26.** Manylion incwm a gwariant y darpar fabwysiadydd.

### Gwybodaeth arall

**27.** Gallu'r darpar fabwysiadydd —

(a) i rannu hanes geni'r plentyn a materion emosiynol cysylltiedig;

(b) deall a chefnogi'r plentyn drwy deimladau posibl o golled a thrawma.

**28.** O ran y darpar fabwysiadydd —

(a) ei resymau dros ddymuno mabwysiadu plentyn;

(b) ei farn a'i deimladau am fabwysiadu a'i arwyddocâd;

(c) ei farn am ei gynneddf i rianta;

(ch) ei farn am ei gyfrifoldeb rhiant a'r hyn y mae'n ei olygu;

(d) ei farn am amgylchedd cartref addas i blentyn;

(dd) ei farn am bwysigrwydd a gwerth addysg;

(e) ei farn a'i deimladau ynghylch pwysigrwydd magwraeth grefyddol a diwylliannol plentyn;

(f) ei farn a'i deimladau am gyswllt o ran plentyn.

**29.** Barn aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd a'r teulu ehangach o ran mabwysiadu.

**30.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.

Rheoliad 26(3)(a)

# RHAN 2

## GWYBODAETH AM IECHYD Y DARPAR FABWYSIADYDD

**1.** Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra.

**2.** Hanes iechyd y teulu, sy'n ymwneud â'r rhieni, brodyr a chwiorydd (os oes rhai) a phlant (os oes rhai) y darpar fabwysiadydd, gyda manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol a chlefyd neu anhwylder etifeddol.

**3.** Anffrwythlondeb neu resymau dros beidio â chael plant (os yw'n gymwys).

**4.** Hanes iechyd yn y gorffennol, gan gynnwys manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol, anabledd, damwain, derbyn i ysbyty neu fynd i adran cleifion allanol, ac ym mhob achos y driniaeth a gafwyd.

**5.** Hanes obstetrig (os yw'n gymwys).

**6.** Manylion unrhyw salwch presennol, gan gynnwys y driniaeth a'r prognosis.

**7.** Archwiliad meddygol llawn.

**8.** Manylion o unrhyw yfed alcohol a all beri pryder neu a yw'r darpar fabwysiadydd yn ysmygu neu'n defnyddio cyffuriau sy'n creu caethiwed.

**9.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried a all gynorthwyo'r panel.

**10.** Llofnod, enw, cyfeiriad, a chymwysterau'r ymarferydd meddygol cofrestredig a baratôdd yr adroddiad, dyddiad yr adroddiad a'r archwiliadau a wnaed ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a all roi gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.

## ATODLEN 5

Rheoliad 32(1)

### GWYBODAETH AM Y PLENTYN I'W RHOI I DDARPAR FABWYSIADYDD

**1.** Manylion am y plentyn.

**2.** Llun a disgrifiad corfforol.

**3.** Manylion am amgylchiadau teuluol y plentyn ac amgylchedd y cartref, gan gynnwys manylion am deulu'r plentyn (rhieni, brodyr a chwiorydd ac eraill sy'n arwyddocaol).

**4.** Cronoleg o ofal y plentyn.

**5.** Ymddygiad y plentyn, sut y mae'r plentyn yn rhyngweithio â phlant eraill ac yn dod ymlaen gydag oedolion.

**6.** A yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac, os felly, y rheswm pam y mae'r plentyn i'w leoli ar gyfer mabwysiadu.

**7.** Manylion hanes lleoli'r plentyn gan gynnwys y rhesymau pam os na lwyddodd unrhyw leoliad.

**8.** Manylion cyflwr iechyd y plentyn, hanes ei iechyd ac unrhyw angen am ofal iechyd a all godi yn y dyfodol.

**9.** Manylion hanes addysgol y plentyn, a chrynodeb o gynnydd y plentyn hyd yn hyn ac os cafodd ei asesu neu os yw'n debygol o gael ei asesu ar gyfer anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996.

**10.** Dymuniadau a theimladau'r plentyn hyd y gellir eu canfod mewn perthynas â mabwysiadu, a chyswllt â rhiant y plentyn, ei warcheidwad, perthynas iddo neu berson arall arwyddocaol.

**11.** Dymuniadau a theimladau rhiant y plentyn, ei warcheidwad, perthynas iddo neu berson arall arwyddocaol o ran mabwysiadu a chyswllt.

**12.** Sylwadau'r person y mae'r plentyn yn byw gydag ef ynghylch mabwysiadu.

**13.** Asesiad o anghenion y plentyn ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu a chynigion yr asiantaeth i ddiwallu'r anghenion hynny.

**14.** Cynigion yr asiantaeth i ganiatáu cyswllt rhwng unrhyw berson â'r plentyn.

**15.** Yr amserlen arfaethedig ar gyfer lleoli.

**16.** Unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried sy'n berthnasol.

## ATODLEN 6

Rheoliad 36(2)

## CYNLLUN LLEOLIAD

**1.** Statws y plentyn a ph'un a leolwyd ef o dan orchymyn lleoliad neu gyda chydsyniad ei rieni gwaed.

**2.** Y trefniadau ar gyfer paratoi'r plentyn a'r darpar fabwysiadydd ar gyfer y lleoliad.

**3.** Y dyddiad y bwriedir lleoli'r plentyn i'w fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

**4.** Y trefniadau ar gyfer adolygu'r lleoliad.

**5.** A fwriedir cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant y darpar fabwysiadydd ac os felly i ba raddau y bydd y cyfyngu.

**6.** Y gwasanaethau cymorth mabwysiadu y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu eu darparu ar gyfer y plentyn a'r teulu mabwysiadol, sut y darperir hwy a chan bwy (os yw'n gymwys).

**7.** Y trefniadau a wnaeth yr asiantaeth fabwysiadu er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson, ffurf y cyswllt a'r trefniadau ar gyfer cefnogi cyswllt ac enw a manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am hwyluso'r trefniadau cyswllt (os yw'n gymwys).

**8.** Y dyddiad pan roddir llyfr stori bywyd a llythyr am fywyd yn nes ymlaen i'r darpar fabwysiadydd neu i'r plentyn.

**9.** Manylion unrhyw drefniadau y mae angen eu gwneud.

**10.** Manylion cyswllt gweithiwr cymdeithasol y plentyn, gweithiwr cymdeithasol y darpar fabwysiadydd a chysylltiadau y tu allan i oriau.